**Rhif: 8**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C17/0015/42/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **24/01/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Nefyn** |
| **Ward:** | **Nefyn** |
| **Bwriad:** | **Ail leoli cwt glan y mor** |
| **Lleoliad:** | **Cwt Glan Mor (Safle 3), Lôn Penrallt, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL536EP** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais yw hwn ar gyfer ail-leoli cwt glan y môr presennol o safle ar lethr i safle mwy gwastad ar waelod y llethr gerllaw'r morglawdd. Mae’r ymgeisydd wedi gofyn am symud y cwt oherwydd tirlithriadau sydd yn digwydd ar y llethr yma o bryd i’w gilydd. Mae’r cwt ei hun yn mesur 2.44 medr wrth 3.20 medr ac mae gyda tho un rhediad sydd gydag uchder yn mynd rhwng 2.4 medr a 3.0 medr. Mae’r cwt wedi ei leoli o fewn ardal llwyfan pren sydd yn mesur 7.32 medr wrth 4.88 medr. Mae’r cwt a'r llwyfan pren o edrychiad pren. Byddai’r cwt yn cael ei leoli ar y tir drwy osod pyst yn y ddaear.

1.2 Mae’r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad ac o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae hefyd o fewn arfordir treftadaeth. Mae AHNE Llyn wedi ei leoli 1.3 medr i ffwrdd tua’r gorllewin a’r dwyrain. Mae’r morglawdd i’r blaen o’r safle ac yna'r traeth ar dir is o flaen y morglawdd. Tua’r de o’r safle mae’r llethr ble lleoli’r y cwt yn bresennol. Mae un cwt arall wedi ei leoli yn y llethr. Tua’r gorllewin o’r safle lleoli’r un cwt glan y môr presennol o liw gwyrdd. Ceir mynediad i’r safle ar hyd y traeth. Mae’r safle o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig Clogwyni Pen Llyn a SoDdGA Porth Dinllaen i Borth Pistyll. Gorwedd y safle cyfochrog a pharth llifogydd C2.

1.3 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan fod tri neu fwy o wrthwynebiadau yn groes i argymhelliad swyddog ar y cais.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**
POLISI B9 - YR ARFORDIR TREFTADAETH - Gwrthod cynigion ar gyfer unrhyw adeilad neu strwythur ar yr arfordir treftadaeth oni bai y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i’w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL - Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd

rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

2.4 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy'n Codi, Ionawr 2017)**

PCYFF 1: Meini prawf datblygu
PCYFF 2: Dylunio a siapio lle
PS 16: Gwarchod a neu wella'r amgylchedd naturiol
AMG 3: Gwarchod yr Arfordir
PS 17: Diogelu a neu wella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

2.5 **Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dylunio

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid oes hanes cynllunio perthnasol i'r safle.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Tirwedd ddim yn saff, gallu bod yn beryg i bobl sy'n cerdded wrth y wal. Bysa tynnu'r cwt yn amharu ac yn ansefydlogi'r dirwedd. |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim argymhelliad gan na thybir y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. |
| Uned Llwybrau: | Dim gwrthwynebiad. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Nid oes gennym wrthwynebiad i'r cais ond mae gennym y sylwadau canlynol. |

Mae'r bwriad o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig Clogwyni Pen Llyn ag o fewn y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Porth Dinllaen i Borth Pistyll. Nodwn fod ecolegydd eith Awdurdod wedi cario allan asesiad o'r bwriad, ac wedi dod i'r farn na fydd yna ddim effaith sylweddol niweidiol i'r safle. Cytunwn efo cyngor ecolegydd eich Awdurdod i glirio unrhyw ddeunydd o leoliad gwreiddiol y cwt.

Mae'r safle y tu allan, ond yn gyfagos i barth C2, yn ôl diffiniad y map cyngor datblygu, o dan NCT 15 Datblygiad a Risg Llifogydd (Gorffennaf 2004). Oherwydd effeithiau tebygol newid hinsawdd yn y dyfodol (lefel y môr yn codi, amodau mwy stormus ayyb), awgrymwn symud y cwt ymhellach i ffwrdd o barth C2.

Sylwadau am waredu defnydd gwastraff.

Uned Bioamrywiaeth: Mae'r lleoliad newydd a'r lleoliad gwreiddiol oddi fewn i Ardal Cadwraeth Arbennig Clogwyni Pen Llyn. Mae'n ofynnol i ni fel Awdurdod Cymwys gynnal Prawf Effaith Sylweddol Tebygol tan Reoliad 61 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) cyn gallu penderfynu ar y cais. Yn yr achos yma oherwydd graddfa fechan iawn y datblygiad a'r ffaith mai newid lleoliad ac nid graddfa fydd y datblygiad nid oes tebygolrwydd y gall y datblygiad effeithio yn sylweddol ar y safle Ewropeaidd. Hoffwn gynnwys amod y dylai'r datblygwr glirio yn llwyr bob deunydd o leoliad gwreiddiol y cwt.

Uned Morwrol: Heb eu derbyn.

Uned AHNE: Mae'r cwt glan y môr wedi ei leoli ar yr allt fôr ar draeth Nefyn. Nid yw yn yr AHNE ond mae ar yr Arfordir Treftadaeth. Nid oes gwrthwynebiad i ail-leoli'r cwt i safle arall gerllaw

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Na fyddai ail-leoli'r cwt ddim yn arbed rhag tirlithriadau gan fod y tirlithriadau yn llithro'r holl ffordd i'r gwaelod a dros ochr y morglawdd i'r traeth islaw.
- Lleoliad arfaethedig y cwt yn creu rhwystr i bysgotwyr a cherddwyr sy'n defnyddio ben y morglawdd i gerdded arni pryd mae'n benllanw.
- Safle presennol y cwt yn fwy cuddiedig a llai o ddolur llygaid na'r safle arfaethedig.
- Yr ardal wedi ei ddynodi yn ADGA gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Pryderu y bydd pobl eraill yn ceisio cael cwt lan y môr ar hyd y wal sydd wedi ei hadeiladu i warchod yn erbyn erydiad arfordirol.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad a mwynderau gweledol

5.1 Mae Polisi B9 CDUG sy'n ymwneud gyda'r Arfordir Treftadaeth yn datgan y gwrthodir cynigion ar gyfer unrhyw adeilad neu strwythur os nad yw'n cydymffurfio gyda'r meini prawf yn y polisi. Mae'r bwriad dan sylw am ail-leoli strwythur presennol o'i safle ar y llethr i safle is gerllaw'r morglawdd. Nid yw'r bwriad felly yn gofyn am leoli strwythur o'r newydd ond yn hytrach yn ail-leoli strwythur presennol. Byddai'r cwt yn cael ei symud oddeutu 18 medr. Gan y byddai wedi ei leoli ar y tir is gerllaw'r morglawdd mae'n debygol y byddai rhywfaint yn fwy gweledol wrth gerdded ar y traeth. Fodd bynnag, o ystyried fod cwt glan y môr o liw gwyrdd wedi ei leoli gerllaw i'r safle ni ystyrir y byddai ail-leoli'r cwt pren yma i'r safle dan sylw yn cael effaith sylweddol ar fwynderau gweledol yr ardal na'r Arfordir Treftadaeth. Er nad yw'r safle wedi ei leoli o fewn yr AHNE, sydd 1.3km i ffwrdd i'r gorllewin a'r dwyrain, derbyniwyd sylwadau gan yr Uned AHNE ac nid oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i ail-leoli'r cwt i'r safle dan sylw. Gan na fyddai'r bwriad yn ychwanegu strwythur newydd i'r Arfordir Treftadaeth ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi B9 CDUG.

5.2 Awgrymwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd y byddai caniatáu ail-leoli'r cwt i'r safle arfaethedig yn creu cynsail am gael rhagor o gytiau ar ben y morglawdd. Mae un cwt arall yn bresennol wedi ei leoli ar y llethr i'r de o'r safle a cheir un cwt i'r gorllewin o'r safle arfaethedig. Byddai ail-leoli strwythur presennol yn cael ei ystyried yn wahanol i sut y byddai cais am gael cwt / cytiau newydd ar y safle. Gan fod polisïau o ran amddiffyn yr arfordir rhag adeiladu o'r newydd ni ystyrir y byddai cais am godi cwt o'r newydd yn cyd-fynd gyda'r polisïau presennol. Felly ni fyddem yn ystyried y byddai caniatáu ail-leoli'r cwt presennol yn creu cynsail i adeiladu cytiau newydd ar / gerllaw'r morglawdd.

5.3 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae Polisi B12 yn datgan y rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth am y tirweddau hanesyddol pan asesir effaith cynigion sydd ar y fath raddfa ac mor fawr fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol arnynt. O ran ei leoliad a'i faint ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi B12 CDUG.

5.4 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001 - 2016) yw'r 'Cynllun Datblygu' ar hyn o bryd a bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) yn disodli'r CDU fel y 'cynllun datblygu' ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Y gobaith yw y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn ystod Gorffennaf 2017.

5.5 Wrth ddelio gydag unrhyw gais cynllunio y prawf statudol ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf ar bob achlysur, h.y. mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae'r CDLl ar y Cyd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol rŵan ar gyfer diben rheoli datblygu - gweler paragraff 3.1.3 Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan:
*"Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sydd wrthi'n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol..."*.

5.6 Er bod nifer o bolisïau wedi cael eu trafod yn fanwl yn ystod Gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ni fyddwn yn gwybod gyda sicrwydd beth fydd cynnwys y Cynllun tan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol.

5.7 Mae paragraff 2.14.1 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan:
*"...wrth ystyried faint o bwys i'w osod ar bolisïau penodol mewn CDLl sydd ar y gweill sy'n berthnasol i gynnig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a'r cefndir i'r polisïau. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn."*

5.8 Yn yr achos hwn, mae'r Polisïau CDLl a'u rhestrir yn 2.4 uchod yn berthnasol a, gan i'r polisïau hyn fod yn gyson gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Unedol, fe ystyrir bod argymhelliad yr adroddiad hwn yn gyson gyda'r polisi allddyfodol.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth. Nid oes tai annedd yn union gerllaw'r safle o safbwynt effeithio ar dai unigol. Mae'r cwt glan y môr yn bodoli eisoes ar safle gerllaw ac ni ystyrir y byddai ei ail-leoli o'r safle hynny i'r safle yma yn effeithio ar fwynderau cyffredinol yr ardal. Hefyd o ystyried y lleoliad gerllaw'r traeth ble mae cytiau glan y môr symudol yn cael eu gosod yn flynyddol ni ystyrir fod niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol yn deillio o'r bwriad a'i fod felly yn dderbyniol o ran Polisi B23 CDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.10 Ni fyddai'r bwriad yn cael effaith ar unrhyw ffordd a ddefnyddir gan drafnidiaeth gerbydol. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan yr Uned Drafnidiaeth i'r bwriad.

5.11 Nid oes ychwaith lwybr cyhoeddus swyddogol yn rhedeg gerllaw'r safle. Deallir fod y cyhoedd yn defnyddio'r morglawdd i gerdded ar adegau. Fodd bynnag defnydd answyddogol yw hyn o'r morglawdd a'r tir sy'n union gerllaw iddo. Ni fyddai lleoliad arfaethedig y cwt glan y môr yn rhwystro pobl rhag cerdded heibio wrth gerdded ar y morglawdd gan y byddai'r oddeutu 2.7 medr i flaen y morglawdd o'r cwt. Ni ystyrir felly fod oblygiadau o ran trafnidiaeth a mynediad yn deillio o'r bwriad yma ac nid oedd gan yr Uned Llwybrau unrhyw bryderon am y bwriad.

**Materion bioamrywiaeth**

5.12 Lleolir y safle o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Clogwyni Pen Llyn a hefyd o fewn SoDdGA Porth Dinllaen i Borth Pistyll. Ymgymerodd yr Uned Bioamrywiaeth gyda Phrawf Effaith Sylweddol Tebygol dan Reol 61 o'r Rheoliadau Cadwraeth cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Daethpwyd i'r canlyniad oherwydd graddfa fechan iawn y datblygiad a'r ffaith mai newid lleoliad ac nid graddfa fydd y datblygiad nad oes tebygolrwydd y gall y datblygiad effeithio yn sylweddol ar y safle Ewropeaidd. Nid oedd gan yr Uned Bioamrywiaeth nag ychwaith Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon am y bwriad felly o safbwynt effaith ar y safleoedd dynodedig. Argymhellwyd gan yr Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru fod safle presennol y cwt yn cael ei glirio yn llwyr o bob deunydd. Byddai'n bosibl gosod hynny fel amod ar ganiatâd cynllunio. Ystyrir fod y bwriad felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi B15 a B16 CDUG.

**Materion Llifogydd**

5.13 Gorwedd y safle gerllaw parth llifogydd C2 yn ôl diffiniad y map cyngor datblygu o dan Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu a'r Perygl o Lifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu yn eu sylwadau y dylai'r cwt gael ei osod ymhellach i ffwrdd o barth C2. Yn anffodus oherwydd bod y llethr i'r cefn o safle'r cais ni fyddai'n bosibl ei leoli ymhellach yn ôl heb fod gwaith o lefelu tir ac ati yn cymryd lle yn y llethr. Oherwydd bod hanes o dirlithriadau yn yr ardal ni ystyrir y byddai'n beth doeth i argymell symud y cwt ymhellach yn ôl a gwneud gwaith peirianyddol yn y llethr er mwyn lleoli'r cwt. Felly o ystyried fod y safle dan sylw y tu allan i'r parth llifogydd presennol ystyrir fod y safle presennol yn dderbyniol o safbwynt materion llifogydd.

**Unrhyw fater arall**

5.14 Nid oes sicrwydd y byddai ail-leoli'r cwt i'r safle neillog yma yn ei arbed rhag tirlithriadau. Mater i'r ymgeisydd ei hun yw a fyddai'r lleoliad arfaethedig yma yn llai tebygol o ddioddef o dirlithriadau na'r safle presennol. Fodd bynnag ni ellir gweld sut y byddai ail-leoli'r cwt i'r safle ar waelod y llethr yn gallu gwaethygu'r sefyllfa o ran tirlithriadau. Mater i'r ymgeisydd hefyd fydd sut y bydd yn symud y cwt ac oblygiadau hynny.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, credir fod y bwriad yma i ail-leoli cwt lan y môr, yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda'r polisïau perthnasol fel y nodir uchod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu - amodau

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol â chynlluniau a gyflwynwyd.
3. Clirio'r safle presennol o'r holl ddeunyddiau.